PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# POLISI AR ADRODD AM DDIGWYDDIAD DIFRIFOL I'R COMISIWN ELUSENNAU

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | | Cyhoeddiad Cyntaf | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio | Ysgrifennydd y Brifysgol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 30 Medi 2019 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd.

**Polisi ar Adrodd am Ddigwyddiad Difrifol i'r Comisiwn Elusennau**

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn elusen yn unol â diffiniad Deddf Elusennau 2006 ac mae wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, a chaiff ei goruchwylio ganddo, sy'n golygu bod rhaid i ni gydymffurfio â'u holl ganllawiau. Mae gan y brifysgol gyfrifoldeb i roi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am bob digwyddiad difrifol yn brydlon, sy'n golygu y dylid cyflwyno adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib ar ôl y digwyddiad, neu'n syth ar ôl i'r brifysgol ddod yn ymwybodol o'r digwyddiad.

Rhaid i'r brifysgol adrodd am ddigwyddiadau difrifol i'r Comisiwn Elusennau ar yr adeg y cânt eu nodi, a rhaid eu cynnwys hefyd yn ffurflen flynyddol y brifysgol i'r Comisiwn Elusennau. Mae hyn yn cynnwys datganiad penodol sy'n cadarnhau yr adroddwyd am ddigwyddiadau difrifol yn briodol. Gwneir y datganiad hwn gan Ysgrifennydd y Brifysgol ar ran holl aelodau'r Cyngor.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff (waeth beth yw natur eu contract cyflogaeth), myfyrwyr y brifysgol, ac unrhyw unigolyn neu sefydliad arall sydd â pherthynas â'r brifysgol, gan gynnwys partneriaethau tramor.

## 3. Diffiniad

At ddibenion y polisi hwn, mae digwyddiad difrifol yn un sydd wedi arwain at golled sylweddol o arian neu risg sylweddol i eiddo, gwaith, buddiolwyr neu enw da'r brifysgol, neu a allai arwain at hynny.

Mae'n ofynnol i'r brifysgol adrodd am ddigwyddiad i'r Comisiwn Elusennau os yw'n arwain at achos arwyddocaol o'r canlynol, neu'n peri risg o hynny:

- niwed i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r brifysgol trwy ei gwaith,
- colli arian neu asedau'r brifysgol,
- difrod i eiddo'r brifysgol,
- niwed i waith neu enw da'r brifysgol.

At ddibenion y polisi hwn, dyma brif gategorïau digwyddiadau adroddadwy:

- amddiffyn pobl a digwyddiadau diogelu - digwyddiadau sydd wedi arwain at niwed sylweddol i fuddiolwyr a phobl eraill sy'n dod i gysylltiad â'r brifysgol neu sy'n peri risg o hynny trwy ei gwaith;
- troseddau ariannol - twyll, lladrad, seiberdroseddu a gwyngalchu arian;
- rhoddion mawr o ffynhonnell anhysbys neu na ellir ei brofi, neu weithgaredd ariannol amheus gan ddefnyddio cronfeydd y brifysgol;
- colled ariannol sylweddol arall;
- cysylltiadau â therfysgaeth neu eithafiaeth, gan gynnwys sefydliadau gwaharddedig, unigolion sy'n destun rhewi asedau, neu herwgipio staff;

- digwyddiadau arwyddocaol eraill, megis - ansolfedd, tynnu gwasanaethau bancio yn ôl heb roi dewis arall, torri/colli data sylweddol neu ddigwyddiadau yn ymwneud â phartneriaid sy'n effeithio'n sylweddol ar yr elusen.

## 4. Polisïau a Gweithdrefnau Perthnasol

Mae gan y brifysgol nifer o bolisïau a gweithdrefnau sy'n cynorthwyo i nodi digwyddiadau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- Polisi ar Ddatganiadau Buddiannau
- Trefn Gwyno
- Polisi Rhoddion a Lletygarwch
- Trefn a Pholisi ar Ddatgelu er Lles y Cyhoedd (chwythu'r chwiban)
- Trefn Gwynion Cyflogaeth
- Trefn Ddisgyblu
- Trefn Gwynion Myfyrwyr
- Rheoliadau Ariannol
- Trefn Gostau Teithio a Chynhaliaeth
- Polisi'r Iaith Gymraeg

## 5. Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb Cyngor y Brifysgol yw penderfynu a yw digwyddiad yn arwyddocaol ac a ddylid adrodd amdano i'r Comisiwn Elusennau. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi ei ddirprwyo i Bwyllgor Archwilio a Risg y brifysgol. Fodd bynnag, dylid rhoi gwybod i Gyngor y Brifysgol yn y cyfarfod nesaf am benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Dylid rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau am ddigwyddiadau yn brydlon, bydd y rhain yn cynnwys digwyddiadau a brofwyd eisoes ac (mewn rhai achosion) lle mae ymchwiliad pellach yn parhau.

## 6. Trefn adrodd am ddigwyddiad

Yn y lle cyntaf a chyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid cyflwyno manylion unrhyw ddigwyddiad a allai fod yn ddifrifol yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Os nad yw'n bosib neu'n briodol, am unrhyw reswm, cyflwyno adroddiad i Bennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, er enghraifft, oherwydd eu bod yn destun yr adroddiad, neu eu bod yn gysylltiedig neu â ryw wrthdaro buddiannau fel arall, dylid ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Brifysgol.

Gellir derbyn adroddiad gan unigolyn, neu gan aelod o uwch staff y brifysgol yn rhinwedd eu swydd yn y sefydliad (e.e. Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol).

Wrth lunio adroddiad, dylai'r unigolyn sy'n adrodd gynnwys y wybodaeth ganlynol:

a) natur y digwyddiad i'r graddau y mae'n bosib canfod hynny e.e. twyll, methu â diogelu data, disgyblu staff;
b) yr effaith neu'r effaith bosib y mae'r digwyddiad wedi ei gael, neu y gallai ei gael, ar y brifysgol;
c) dyddiad y digwyddiad neu'r dyddiad yr amheuir bod y digwyddiad wedi digwydd;
d) enwau unrhyw unigolion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad neu yr amheuir o fod yn gysylltiedig â'r digwyddiad;
e) a yw'r unigolyn wedi adrodd am y digwyddiad neu'r amgylchiad i aelod staff arall neu i awdurdod allanol neu gorff rheoleiddio cyn llunio adroddiad o dan ofynion y polisi hwn;
f) manylion unrhyw ymholiadau parhaus i'r digwyddiad ac unrhyw gamau a gymerwyd hyd yma; ac
g) a ymgynghorwyd ag unrhyw bolisïau cymwys cyfredol y brifysgol (e.e. y Pholisi ar Ddatgelu er Lles y Cyhoedd (chwythu'r chwiban), neu'r Polisi Cwynion Cyflogaeth).

Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn penderfynu a yw'n credu bod y digwyddiad neu'r amgylchiad yn ddigwyddiad difrifol yn unol â'i ddiffiniad, ac a ddylid felly ymdrin ag ef o dan y polisi hwn. Os bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn penderfynu y dylid ymdrin â'r digwyddiad hefyd, neu fel arall, o dan bolisi neu weithdrefn wahanol y brifysgol, bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn hysbysu'r unigolyn sy'n cyflwyno'r adroddiad am y camau ychwanegol i'w cymryd.

## 7. Peidio â Datgelu Manylion Personol a Chyfrinachedd

Mae'r brifysgol yn cymryd cyfrinachedd o ddifrif a bydd, hyd eithaf ei gallu, yn cadw manylion personol y gellir eu defnyddio i adnabod yr unigolyn sy'n adrodd am ddigwyddiad difrifol o dan y polisi hwn yn gyfrinachol. Gall unigolion hefyd adrodd am ddigwyddiad yn ddienw, ond gall hyn olygu na all y brifysgol ymchwilio i'r mater yn llawn mewn modd mor effeithiol ag adroddiad a wnaed yn agored.

## 8. Y Broses Ymchwilio

Ar ôl derbyn yr adroddiad am ddigwyddiad difrifol, bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, os bydd angen, yn cynnal cyfarfod gyda'r unigolyn a gyflwynodd yr adroddiad. Pwrpas y cyfarfod fydd casglu cymaint o wybodaeth â phosib am y digwyddiad.

Yn dilyn y cyfarfod bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn penderfynu a yw'r digwyddiad yn ddigwyddiad difrifol o dan y polisi hwn. Os nad yw unrhyw weithdrefn arall eisoes wedi ei rhoi ar waith (e.e. trefn ddisgyblu, trefn ddatgelu er lles y cyhoedd) bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio (neu eu henwebai penodedig) yn dechrau ymchwiliad i'r digwyddiad er mwyn casglu rhagor o wybodaeth am amgylchiadau'r digwyddiad. Efallai y bydd yn briodol i'r brifysgol hysbysu'r Comisiwn Elusennau ar y cam hwn o'r broses, hyd yn oed os nad yw'r holl wybodaeth yn hysbys. Gwneir adroddiad o'r fath fel yr amlinellir yn Adran [c] isod.

Gall y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio gyfeirio digwyddiad yr adroddir ato at yr heddlu neu awdurdod priodol arall.

Os yw'r mater i gael ei ymchwilio, neu os oes digon o wybodaeth i adrodd am y digwyddiad beth bynnag, dilynir y broses ganlynol:

a) Pan fydd ymchwiliad, caiff ei gynnal mewn modd mor sensitif a chyflym â phosib.
b) Bydd y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio yn adrodd am y digwyddiad, ynghyd ag argymhellion priodol, i Ysgrifennydd y Brifysgol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, fel arfer cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn yr adroddiad, er y bydd hynny'n dibynnu ar gymhlethdod y mater a nifer yr unigolion dan sylw.
c) Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, mewn ymgynghoriad ag Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, yn gwneud penderfyniad terfynol, ar ran Cyngor y Brifysgol, a yw'r digwyddiad yn ddigwyddiad y dylid adrodd amdano. Os bernir bod y digwyddiad yn ddigwyddiad y dylid adrodd amdano, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarwyddo'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio i lunio adroddiad ffurfiol i'r Comisiwn Elusennau. Bydd Cadeirydd Cyngor y Brifysgol hefyd yn cael gwybod yn ystod y cam hwn.

## 9. Monitro digwyddiadau adroddadwy

Cedwir cofnod o'r holl ddigwyddiadau y gellir eu diffinio fel digwyddiadau adroddadwy gan y Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, a darperir adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter. Adolygir y cofnod llawn o bryd i'w gilydd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i ddarganfod a oes patrymau o ddigwyddiadau difrifol y dylai'r brifysgol roi sylw iddynt.

## 10. Rhagor o Wybodaeth

I gael arweiniad cyffredinol am fanylion y polisi hwn, cysylltwch â'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio.